Department for Work & Pensions

Caxton House
Tothill Street
LONDON
SW1H 9DA

ministers@dwp.gov.uk

HM Treasury

HM Treasury
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

Cyng. Beca Roberts
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd
LL55 1SH

Eich cyf:

Ein cyf: MC2024/97778

23 Rhagfyr 2024

Annwyl Gynghorydd Beca Roberts,

Diolch i chi am eich gohebiaeth ar 30 Hydref at y Prif Weinidog ynglŷn â'r penderfyniad i gyfyngu ar gymhwysedd i dderbyn y Taliad Tanwydd Gaeaf. Rwyf yn ymateb fel y Gweinidog Pensiynau ac yn ymddiheuro am yr oedi.

Yn wyneb y pwysau sylweddol a wynebir gan gyllid cyhoeddus eleni a'r flwyddyn nesaf, bu'n rhaid i'r Llywodraeth wneud dewisiadau anodd, gan gynnwys targedu'r Taliad Tanwydd Gaeaf, i ddod â chyllid cyhoeddus yn ôl dan reolaeth. Mae'r penderfyniad hwn yn golygu y bydd y Taliad Tanwydd Gaeaf yn cael ei dargedu at bensiynwyr incwm isel sydd ei angen.

Er gwaethaf y penderfyniad anodd hwn, rydym yn benderfynol o amddiffyn y pensiynwyr tlotaf a thargedu cefnogaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Bydd y Taliadau Tanwydd Gaeaf yn parhau i gael eu talu i aelwydydd pensiynwyr sydd â rhywun sy'n derbyn Credyd Pensiwn neu rai budd-daliadau eraill sy'n seiliedig ar incwm. Byddant yn parhau i fod yn werth £200 ar gyfer aelwydydd cymwys, neu £300 ar gyfer aelwydydd cymwys gyda rhywun dros 80 oed.

Mae'r Llywodraeth am i'r rhai sy'n gymwys i gael Credyd Pensiwn ond nad ydynt ar hyn o bryd yn ei hawlio i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys y Taliad Tanwydd Gaeaf. Fel rhan o hyn, rydym wedi dechrau ymgyrch newydd i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn, sy'n llawer rhy isel ar hyn o bryd - gyda

thraean o bensiynwyr cymwys ddim yn ei hawlio. Rydym yn gwybod bod yna bensiynwyr incwm isel nad ydynt yn hawlio Credyd Pensiwn, ac rydym yn annog y bobl hynny i wneud cais.

Gellir gwneud hawliadau am Gredyd Pensiwn ar-lein yn: www.gov.uk/pension-credit/how-to-claim. Mae'r gwasanaeth ar gael i'w ddefnyddio 24/7, ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai hynny a allai ei chael hi'n anodd gwneud eu cais ar eu pennau eu hunain i gael ffrind neu deulu i'w cefnogi wrth wneud eu cais, ar adeg sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw. Gellir gwneud hawliadau Credyd Pensiwn hefyd drwy'r rhif rhadffôn 0800 99 1234, ac mae opsiwn i lenwi ffurflen gais bapur.

Hoffwn bwysleisio bod y Llywodraeth hon wedi ymrwymo'n llwyr i bensiynwyr - mae pawb yn ein cymdeithas, waeth beth yw eu hanes gwaith neu eu cynilion, yn haeddu ymddeoliad cyfforddus ac urddasol. Dyna pam, trwy ein hymrwymiad i ddiogelu'r Clo Triphlyg, y bydd dros 12 miliwn o bensiynwyr yn elwa, gyda disgwyl i lawer weld eu Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu dros fil o bunnoedd dros y pum mlynedd nesaf. Mae diogelu'r Clo Triphlyg, hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd bresennol, yn dangos ein hymrwymiad diysgog i bensiynwyr.

Mae'r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn darparu ad-daliad o £150 ar eu bil trydan i aelwydydd incwm isel cymwys ledled Prydain Fawr. Y gaeaf hwn, rydym yn disgwyl i dros dair miliwn o gartrefi, gan gynnwys dros filiwn o bensiynwyr, elwa o'r cynllun.

Yng Nghyllideb yr Hydref 2024, cyhoeddodd y Canghellor y bydd £1 biliwn, gan gynnwys effaith Barnett, yn cael ei fuddsoddi i ymestyn y Gronfa Gymorth i Aelwydydd yn Lloegr am flwyddyn gyfan tan 31 Mawrth 2026, ar ben y chwe mis a gyhoeddwyd eisoes, ac i gynnal Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn helpu'r aelwydydd hynny sy'n ei chael hi'n anodd ac sy'n wynebu'r caledi ariannol mwyaf.

Rydym yn cefnogi defnyddwyr, gan gynnwys pensiynwyr, drwy Gynllun Cartrefi Cynnes uchelgeisiol y Llywodraeth a fydd yn trawsnewid cartrefi ledled y wlad trwy eu gwneud yn lanach ac yn rhatach i'w rhedeg, o osod insiwleiddiad newydd i gyflwyno pympiau solar a gwres. Rydym wedi ymrwymo £3.4 biliwn dros y 3 blynedd nesaf tuag at ddatgarboneiddio gwres ac effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hyn yn cynnwys £1.8 biliwn i gefnogi cynlluniau tlodi tanwydd, gan helpu dros 225,000 o aelwydydd i leihau eu biliau ynni o fwy na £200.

Mae ein camau eraill yn cynnwys torri amseroedd aros yn y GIG a fydd yn helpu llawer o bensiynwyr sy'n aros mewn poen ac anghysur am driniaeth ar hyn o bryd, a sicrhau'r sefydlogrwydd economaidd sydd mor hanfodol i bensiynwyr.

O ystyried y pwysau sylweddol sy'n wynebu cyllid cyhoeddus eleni a'r flwyddyn nesaf, bu'n rhaid i'r Llywodraeth wneud dewisiadau anodd i ddod â chyllid cyhoeddus yn ôl dan reolaeth.

Yn gywir,



**Emma Reynolds AS**
**Y Gweinidog Pensiynau**